**Cyfarfod Llawn 2001-2002 (29)**

**Dydd Mawrth, 13 Tachwedd 2001**

**AGENDA**

**Bydd y Sesiwn yn dechrau am 2.00pm**

**Eitem 1**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Cliciwch yma i weld y cwestiynau

**Eitem 2**
**Datganiad Busnes: y Trefnydd**
Cliciwch yma am y Datganiad Busnes Drafft

**Eitem 3**
**Atal Rheol Sefydlog**
*NDM834* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

Yn unol â Rheol Sefydlog 34.4 yn penderfynu atal Rheol Sefydlog 6.3A mewn perthynas â chwestiynau i Jane Davidson, y Gweindog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes ar 29 Tachwedd i alluogi'r cwestiynau hynny i gael eu hateb ddydd Mawrth 27 Tachwedd 2001.

**Eitem 4**
**Diwygio Rheol Sefydlog 6.2**
*NDM831* - Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) Deddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 34:

i. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 29 Hydref 2001 ; ac
ii. Yn cymeradwyo'r newid canlynol i Reol Sefydlog 6.2

**Rheol Sefydlog 6.2**

Dileu'r ail frawddeg sy'n dechrau *"Os na fydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod penodol……*" yn gyfan gwbl a rhoi yn ei lle:

" Os na fydd cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer amser penodol gall y Llywydd, ar gais y Prif Ysgrifennydd, gynnull y Cynulliad i ystyried mater brys sydd o bwys cyhoeddus."

*Cliciwch yma i weld y adroddiad y Pwyllgor Busnes - Ar gael yn Saesneg yn unig*

**Eitem 5**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Plaid Cymru**
**NDM833 -** Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn mynegi ei bryder dybryd ynghylch yr oedi sy'n parhau o ran delio â cheisiadau cyn lowyr a'u teuluoedd yng Nghymru am iawndal yn dilyn dyfarniad yr Uchel Lys ar 23 Ionawr 1998; yn gresynu at ddyraniad Cymru o dan Gronfa Adfywio'r Meysydd Glo sy'n llai o lawer na chyfraniad hanesyddol Cymru i ddiwydiant glo'r DU; ac yn galw ar Brif Weinidog Cymru i gyflwyno'r achos cryfaf posibl i lywodraeth y DU ynghylch yr anghyfiawnderau hyn, a hynny ar fyrder.

**Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:**
*Yn unol â’r canllawiau diwygiedig ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae’r Llywydd wedi penderfynu ym mha drefn y dylid eu cymryd ac mae wedi penderfynu grwpio’r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth. Bydd y pleidleisiau’n cael eu cymryd yn unigol*
(1)
(2)

**Gwelliant 1 - Andrew Davies (Gorllewin Abertawe);**
Dileu pob gair sy’n dilyn "Cynulliad Cenedlaethol" a rhoi’r canlynol yn eu lle:
"yn cydnabod pryderon ynghylch oedi wrth ymdrin â cheisiadau am iawndal gan gyn-lowyr a’u teuluoedd yng Nghymru, ond hefyd yn cydnabod fod camau breision wedi’u cymryd mewn cyfnod byr ers sefydlu’r Grwp Monitro sy’n ymdrin â cheisiadau am iawndal a bod bron i £100m wedi’i dalu i gyn-lowyr a’u teuluoedd yng Nghymru, ac yn edrych ymlaen at weld y mater yn cael ei setlo cyn gynted ag y bo modd."

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru);**
Dileu’r hanner colon ar ôl 1998 ac ychwanegu:
". Mae’n cydnabod bod y newidiadau parhaus gan Lywodraeth y DU ynghylch y cyfrifoldeb Gweinidogol dros y mater hwn wedi ychwanegu at yr oedi. At hynny mae"

**Eitem 6**
**Dadl Plaid Leiafrifol: Y Blaid Ceidwadol**
**NDM832 -** Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu canslo ar unwaith y prosiect i godi adeilad Siambr newydd y Cynulliad ac yn penderfynu rhoi'r arian a arbedir i gyllideb iechyd y Cynulliad.

**Bydd y cyfarfod yn dod i ben am 5.30pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**9.05 am ddydd Iau, 15 Tachwedd 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**